# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
# 12.12.22

**Yn bresennol:** Arwyn Williams (Pennaeth Ysgol Brynrefail) (Cadeirydd)

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorwyr Beca Brown (Addysg) ac Ioan Thomas (Cyllid)

**Pennaeth Cyllid:** Dewi A Morgan

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Neil Foden (Ysgol Friars), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog) ac Aled Williams (Ysgol Ardudwy)

Cynradd: Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys / Bro Cynfal), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn), Ruth Jones (Ysgol ....)

**Llywodraethwyr:** Edward Bleddyn Jones (Ysgol Tregarth)

**Ysgolion Eglwys:** Neb yn bresennol

**Ysgolion Arbennig:** Neb yn bresennol

**Esgobaeth:** Neb yn bresennol

**Cynrychiolydd yr Undeb:** Clive Thomas (Ysgol Syr Hugh Owen)

**Sylwedydd:** Eleri Jones (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd)

**Swyddogion:** Garem P Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg), Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg), Kathy W Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion), Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad), Rhys M Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd), Einir Davies (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth)

Ar ddechrau y cyfarfod bu i'r Pennaeth Addysg gymryd y cyfle i dalu teyrnged i Godfrey Northam oedd wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod maith, ac er parch iddo cymerwyd munud o dawelwch.

Yn ychwanegol, cymerwyd y cyfle i ddiolch i Owen Owens am ei holl waith ar achlysur ei ymddeoliad o'r Cyngor, a chymerwyd y cyfle i ddymuno yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ail-ethol Arwyn Williams, Pennaeth Ysgol Brynrefail, yn Gadeirydd y Fforwm am 2022/23.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** gan nad oedd enw yn cael ei gynnig ar gyfer y rôl is-gadeirydd y byddai y rôl yn cael ei gadael yn wag am y tro, er mwyn gallu symud ymlaen gyda y cyfarfod.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Siôn Huws (Adran Gyfreithiol y Cyngor), Y Cynghorydd Gwilym Jones (Llywodraethwr Ysgol Borthygest) a Donna Roberts (Ysgol Hafod Lon).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2022 fel rhai cywir.

## 7. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nodwyd bod nifer o'r materion eisoes wedi eu cynnwys ar yr agenda.

## 8. BALANSAU YSGOLION BLWYDDYN GYLLIDOL 31/3/22

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion, gan nodi bod patrwm cenedlaethol yn ymddangos yn y ffigyrau oedd yn mynd hyd at ddiwedd Hydref. Cadarnhawyd mai Gwynedd yw'r Awdurdod gyda'r balansau uchaf y pen yng Nghymru, gyda dim un o ysgolion Gwynedd mewn diffyg. Ategwyd at hyn gan y Pennaeth Addysg, oedd wedi bod yn trafod gyda Llywodraeth Cymru, oedd yn cadarnhau fod y balansau yn anghyffredin o uchel, a'u hawgrym o gynllun gwario dros dair blynedd.

Nododd y Cyfrifydd Grŵp y bydd £7.5 miliwn yn diflannu erbyn diwedd y flwyddyn os yw cynlluniau yn cael eu cario allan.

Cadarnhawyd nad oes trafodaeth wedi bod gydag ysgolion unigol, ond nad yw y sefyllfa mor addawol ac mae y balansau yn ei awgrymu, gyda llawer o ysgolion wedi ymrwymo i wario yn y flwyddyn newydd. Nodwyd bod materion ychwanegol hefyd megis codiadau cyflogau, a chynnydd mewn prisiau tanwydd fydd yn effeithio ar y ffigyrau. Cadarnhawyd na fydd lleihad yn grantiau sylweddol y Llywodraeth.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. GRANTIAU YSGOLION 2022/23

Atgoffodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion y Fforwm o'r grantiau sylweddol sydd wedi eu derbyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o'u cymharu gyda grantiau eleni o £13 miliwn. Nodwyd, yn flaenorol, fod grant hwyr refeniw cynnal a chadw wedi ei dderbyn, ond cadarnhawyd nad yw hwn ar y cardiau eleni.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 10. STRATEGAETH ARIANNOL Y CYNGOR 2023/2024

Rhoddwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Cyllid, a gadarnhaodd bod llawer o'r wybodaeth yn newid yn barhaus, ac na fydd ffigwr Setliad Ariannol yr Awdurdod ar gael nes 14 Rhagfyr. Nododd y Pennaeth Cyllid ei bod yn ymddangos y bydd y setliad yn llai gwael na'r hyn yr oedd wedi ofni, a rhannodd sleidiau gyda'r Fforwm. Cyfeiriodd at faterion fydd yn cael effaith ar y setliad megis chwyddiant cyffredinol o 10/11%, a bod digartrefedd wedi cynyddu yn y Sir.

O ran sefyllfa ariannol y flwyddyn gyfredol (2022/23), cadarnhawyd na fydd grantiau ychwanegol, a disgwylir bydd gorwariant o £7.1 miliwn yn erbyn cyllideb y Cyngor. Gan na ddisgwylir grantiau ychwanegol eleni, bydd rhaid llenwi'r bwlch trwy ddefnyddio balansau y Cyngor. Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at lythyr oedd eisoes wedi ei ddanfon at Benaethiaid ynglŷn â'r bwlch ariannol, ond nodwyd efallai y daw y bwlch i lawr fymryn.

Nodwyd bod ffigyrau cyfrifiad 2021 yn dechrau bwydo drwodd hefyd, ac mae llygedyn o obaith y bydd y setliad fymryn yn well na'r hyn oedd wedi ei ragweld. Cadarnhawyd efallai y bydd posib prynu amser yn 2023/24 ond wrth gwrs mae hyn yn ddibynnol ar gyhoeddiad y Gweinidog.

Cyfeiriwyd at yr opsiynau i gau'r bwlch, ond mae yna waith balansio, yn enwedig gan fod y sefyllfa ariannol wedi newid mor annisgwyl ers dechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol.

Cyfeiriwyd at y drefn blaenoriaethu, gan gadarnhau bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn edrych ar y cynigion unigol o bob Adran, a bydd hyn yn cael ei ddilyn gan bob Pennaeth yn mynd gerbron y Tîm Arweinyddiaeth 19 a 20 Rhagfyr i drafod ymhellach.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at fodelu toriadau o 1% i 6% ar gyfer ysgolion, ac er y gellir prynu amser, dim ond am gyfnod mae hyn yn bosib.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at y drefn a ffigyrau dangosol gyda thoriad fflat ar draws y sectorau i gyd. Nododd bod 6% yn gyfystyr â £4.8 miliwn, ond pwysleisiwyd mai ffigyrau dangosol ydy y rhain.

Cadarnhawyd yr angen am gyfarfod arall ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror yn ddibynnol ar ddyddiaduron.

Pwysleisiwyd mai y rhain yw y ffigyrau gwaethaf.

Diolchodd y Pennaeth Addysg am gyflwyniad da, eglur, gan nodi bod yn rhaid i bob Adran baratoi, ond nad oedd modd darogan y sefyllfa ar hyn o bryd.

Agorwyd y cyfarfod i gwestiynau / sylwadau :

Nododd y Cadeirydd mae un peth yw dangos ffigyrau, ond nid yw y ffigyrau yn dangos sefyllfa fregusrwydd plant sydd yn dod dros Covid. Nododd y Pennaeth Addysg bod gwaith adfer y sefyllfa effaith Covid ar blant. Yn ychwanegol, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg ei fod wedi gorfod darlunio ardrawiad ar bobl Gwynedd wrth wneud cynigion i'r Tîm Arweinyddiaeth. Nododd y Pennaeth Addysg yr angen i ystyried y toriadau cyffredinol ar draws y tri sector, er bod y dip demograffeg wedi taro y cynradd ac eto i ddod i'r uwchradd.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod pob cynnig yn cael ei ystyried, ar draws y Cyngor.

Cododd Cynrychiolydd yr Undeb gwestiwn ynglŷn ag arian wrth gefn y Cyngor, ynghyd ag unrhyw arian sydd wedi ei glustnodi, gan holi a yw hwnnw ar y bwrdd hefyd, gan ei bod yn bwysig ystyried hynny. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod reserfau/arian wrth gefn a bydd modd edrych arnynt i lenwi bylchau a phrynu cymaint o amser a phosib. Ychwanegodd bod reserfau ar gyfer

prosiectau penodol a phenderfyniadau ar brosiectau wedi eu gwneud ers amser, ond bydd unrhyw dynnu yn ôl yn hollol dryloyw. Nodwyd mai gwaith ataliol yw y ffordd i ateb gofynion rhai prosiectau.

Cwestiynodd un Pennaeth Uwchradd, beth bynnag y canran, mae rhai ysgolion o dan warchodaeth. Effaith hyn fydd toriadau uwch i rai ysgolion a nododd yr angen i gadw sefyllfa pob ysgol ar wahân.

Nododd y Cynrychiolydd Undebau ei bryder am y sefyllfa recriwtio a chadw, ynghyd ai bryder am y negeseuon sydd yn cylchdroi. Nododd yr angen i ddal i fyny yn syth ar ôl Covid, a bod hyn yn amseru gwael iawn. Nodwyd bod tair ffordd amlwg o arbed arian sef dosbarthiadau mwy, lleihau ar ynni a thorri a staff a chwestiynwyd a yw ysgolion yn addas i hyn?

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at gynlluniau sydd weithiau yn cael eu hadnabod i ddod ag arian i mewn, ynghyd â'r Cynllun Rheoli Asedau a'r Cynllun Buddsoddi i Arbed, sydd dan drafodaeth yn y cylch hwn.

Cwestiynodd un Pennaeth Uwchradd a yw Buddsoddi i Arbed yn agored i Ysgolion unigol, a nododd y Pennaeth Cyllid y byddai yn gwirio hyn ac adrodd yn ôl.

Nododd un Pennaeth Cynradd bod arbedion yn anorfod, ond ei bod yn poeni am y plant, a'r cyfrifoldeb tuag at y staff, sydd yn rhoi straen ar ysgolion, a'r sgil effaith o golli Penaethiaid ac athrawon.

Gwnaeth y Cadeirydd y sylw, petai ysgol yn derbyn llai o ddisgyblion, y byddai angen rhoi llai o ddosbarthiadau a bydd hyn yn rhesymoli ysgolion. Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg bod y Cyngor wedi gorfod cymryd penderfyniadau anodd a bydd rhaid edrych ar ddemograffig a chynnig gwerth am arian.

Cwestiynwyd a ydy y cyllid y tu draw i ysgolion yn cael ei dorri yn yr un modd (e.e. GwE ac ADY), a chadarnhawyd eu bod.

Cadarnhawyd y bydd mwy o eglurder ar gael yn y cyfarfod sydd i'w drefnu ar gyfer diwedd Ionawr/dechrau Chwefror o ran gwariant yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 ynghyd â'r setliad.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg mai rhannu gwybodaeth oedd pwrpas y cyfarfod ac y bydd y sefyllfa yn fwy aeddfed erbyn Ionawr/Chwefror. Erfyniodd ar Aelodau y Fforwm i gymryd y cyfle rhwng nawr a'r cyfarfod nesaf i drafod gyda cyd-benaethiaid.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a threfnu cyfarfod cyn gynted â phosib i drafod ymhellach, pan fydd y ffigyrau ar gael.**

## 11. CANOLFANNAU IAITH 2023/2024

Cafwyd cyflwyniad gan Bennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd. Cyfeiriodd at y cyfarfod 28/6/21 ble drafodwyd y Grant Gwella Addysg a'r gymeradwyaeth ynglŷn â'r cyfraniad gan ysgolion. Nododd y bwriad i fodelu opsiynau er mwyn ymgynghori gydag ysgolion a'r Fforwm. Nododd y dymuniad na fydd angen mynd ar ofyn ysgolion ac y bydd modd dod o hyd i'r arian eleni, gan drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf sut y bydd yn cael ei ariannu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac i dderbyn diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf.**

## 12. INTEGREIDDIO 2023/2024

Cyfeiriwyd at yr arolwg ar-lein oedd wedi ei rannu er mwyn derbyn sylwadau Penaethiaid. Cadarnhawyd bod 33 holiadur wedi dod i law, gyda Model 7 ar gyllidebu ysgolion yn cael ei ffafrio. Nodwyd bod y sylwadau yn trafod effaith Model 7 ar gyllidebau ysgolion ac y byddent yn symud ymlaen i wneud mwy o waith ar Fodel 7.

Cadarnhawyd mai y camau nesaf fydd edrych ar Fodel 7 yn fwy gofalus, gan ystyried y sylwadau, gan edrych ar newid yn Ebrill 2023, ac yna ail-drafod os ydy y model yn addas ai peidio.

Croesawodd y Cynrychiolydd Undeb bod y gwaith sicrhau ansawdd y data yn cael ei wneud gyda swyddogion ansawdd.

Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad y bydd gwaith yn cael i wneud i edrych os yw'r pwysedd yn gywir. Yn ychwanegol, nododd mai wrth wneud y gwaith modelu y bydd yn dod yn glir os oes rhywbeth ddim yn iawn. Cadarnhawyd y bydd yn cael sylw drwy lygaid darparwyr.

Cadarnhawyd y bydd diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod Ionawr/Chwefror.

Cwestiynwyd a oes grŵp yn edrych ar y gwaith a chadarnhawyd bod gweithgor yn bodoli ond bod angen cynrychiolaeth newydd. Cadarnhawyd bod Gwynedd yn symud ymlaen yn dda ac o flaen ambell Sir gyfagos.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac i dderbyn diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf.**

## 13. RHAGOLYGON TAIR BLYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfrifydd Grŵp Ysgolion, ble nodwyd bod y Sir yn edrych ar golli 550 o blant cynradd oherwydd lleihad mewn niferoedd. Golyga hyn golli £1.2 miliwn yn y sector cynradd dros dair blynedd. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru yn ail-edrych ar Grant y Chweched, ond efallai y byddent yn symud i'w osod ar ffigyrau gwir, a chadarnhawyd bod popeth i fyny yn yr awyr. Nodwyd os yw balansau wedi mynd, y bydd angen pontio Ebrill i Awst. Nodwyd bod llawer o bethau i fyny yn yr awyr ar hyn o bryd a bod ystadegau genedigaethau yn ymddangos i fod yn gostwng.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 14. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETHAU 2023

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg bod wyth cytundeb yn dod i ddiwedd eu hoes a bod ysgolion wedi cael cynnig rhoi sylwadau, ac y byddent yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf, mewn manylder.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad a chael diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

## 15. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal Dydd Llun 6 Chwefror am 3.30 p.m. dros Teams.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 y.h. a daeth i ben am 5.00 y.h..